# Cymraeg i Bawb - TAR Cynradd 2023-24

## Sesiwn 1: 5.10.23
## Cenedl Enwau

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

eleri.powell@uwtsd.ac.uk

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGORiaith

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Bore ma byddwn ni'n…

- adolygu rhannau ymadrodd;
- atgoffa ein hunain am genedl enwau;
- rhoi cyfle i chi feddwl am genedl enwau yng nghyd-destun eich pwnc neu thema benodol;

# Adolygu Rhannau Ymadrodd

https://quizlet.com/gb/212731136/rhannau-ymadrodd-diffiniadau-flash-cards/

Defnyddiwch:

**Learn** i adolygu
**Write** a **Test** i brofi
**Match** i chwarae gêm baru.

# Adolygu Rhannau Ymadrodd



## Pa un sy'n eithriad?

amryliw
lliwgar
coch
peintio
prydferth



# Adolygu Rhannau Ymadrodd



## Pa un sy'n eithriad?

gwrando
edrych
darllenodd
ysgrifennu
trafod



# Adolygu Rhannau Ymadrodd



## Pa un sy’n eithriad?

athrawes
disgybl
desg
llyfr
pensiliau



# Adolygu Rhannau Ymadrodd



## Pa un sy’n eithriad?

llwyfan
llenni
actor
golau
sgript



# Pwy sy'n cofio pam bod cenedl enwau yn bwysig?

- Nodwch eich syniadau ar bapur.



# Cenedl enwau

Mae gan bob enw yn y Gymraeg **genedl**, hynny yw, mae naill ai'n **fenywaidd** neu'n **wrywaidd**. Yn y geiriadur dynodir cenedl enw fel hyn:

eg – enw gwrywaidd e.e. plentyn

eb – enw benywaidd e.e. coeden

# Cenedl enwau

Er gwybodaeth, mae cenedl rhai geiriau yn amrywio yn ôl ardal neu dafodiaith.

Er enghraifft, mae'r gair *munud* yn tueddu i fod yn wrywaidd yn y Gogledd ac yn fenywaidd yn y De.

**Gogledd – dau funud; y munud hwnnw**

**De – dwy funud; y funud honno**

# Cenedl enwau

Yn y geiriadur, defnyddir ***egb*** i ddynodi enw a all fod naill ai'n  wrywaidd neu'n fenywaidd.

**munud**
(2)

cofnodion sy'n **cyfateb** i '***munud***'

**munud**

eg/b

minute

*Geiriadur Cyffredinol Cysgair*

**munud** eg/b **munudau** minute n

*Y Termiadur Addysg - Ffiseg a Mathemateg*

# Benywaidd/ Gwrywaidd: pwysigrwydd cenedl enw

**ADRODDIAD- eg**

- Treuliwyd chwe mis yn rhoi'r adroddiad **hwn** at ei gilydd.
- Mae'n adroddiad **c**ynhwysfawr, **d**iddorol ac eang **ei apêl**.
- Bydd pawb sy'n **ei ddarllen** yn cael budd mawr **ohono**.

**DOGFEN- eb**

- Treuliwyd chwe mis yn rhoi'r ddogfen **hon** at ei gilydd.
- Mae'n **dd**ogfen **g**ynhwysfawr, **ddi**ddorol ac eang **ei hapêl**
- Bydd pawb sy'n **ei darllen** yn cael budd mawr **ohoni**.

# Tasg: Crëwch dabl tebyg i'r un isod ar bapur.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Ysgrifennwch 16 enw unigol fyddech chi'n gweld mewn ystafell ddosbarth.



# Defnyddiwch eiriadur…
# enw gwrywaidd neu enw benywaidd?







Dau?

Dwy?

eg = enw gwrywaidd        eb = enw benywaidd

# Yn y dosbarth ...




Rhowch gerdyn i bob disgybl gan ofyn iddyn nhw chwilio am yr enw yn y geiriadur er mwyn canfod cenedl yr enw. Gofynnwch i'r "enwau benywaidd" sefyll mewn un cornel y dosbarth tra bod yr "enwau gwrywaidd" yn sefyll mewn cornel arall.

Mae hyn yn ffordd dda o ddatblygu sgiliau geiriadur a hynny mewn ffordd hwyliog. Gydag amser, gallwch ychwanegu elfen o gystadleuaeth i'r gem drwy amseru. Gallwch uwch lefelu'r dasg drwy eich dewis o enwau, e.e. drwy gynnyws enwau egb / enwau pwnc benodol, a.y.y.b.

# Pam bod hyn yn bwysig?



- Mae'n rhaid i ni wybod pryd a sut i'w defnyddio!
- Mae'n dangos pryd y dylwn dreiglo.

e.e.

- treiglo ar ôl 'y'
- treiglo ansoddair: adeilad 'mawr' neu 'fawr'?
- Hwn neu hon? Y llyfryn 'hwn' neu 'hon'?

Beth yw'r rheolau sy'n rhaid i ni eu cofio?

# Y Treiglad Meddal

| Cysefin | Treiglad meddal |
|---|---|
| P | B |
| T | D |
| C | G |
| B | F |
| D | Dd |
| G | / |
| Ll | L |
| M | F |
| Rh | R |

# Gwrywaidd

**Dim treiglad ar ôl 'y':**

y **b**achgen
y **c**oleg
y **d**rws

**Ansoddair ddim yn treiglo ar ôl enw gwrywaidd:**

y bachgen **da**
y coleg **mawr**
y drws **melyn**

**Rhifau Mr + y gair:**

dau + TM
tri + TLl
pedwar + x

# Gwr neu Ben?

# Benywaidd

**Treiglad meddal ar ôl 'y':**

y ferch
y ddesg
y gath

Ond x 'll/rh' – y rhaglen

**Ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd**

y ferch **glyfar**
y ddesg **fawr**
y gath **ddu**

**Rhifau Mrs + y gair:**

dwy + TM
tair + X
pedair + X

# Adnodd defnyddiol



# Defnyddio 'y' / 'r *(the)*

## y + enw benywaidd unigol

**<u>Treiglad meddal</u> ar ôl 'y'** ***:***

y gadair
y brifathrawes
y daith
y wers
y freuddwyd
y ddawns
y fam

**OND:** X **ll / rh**

y **ll**ygoden fawr
y **rh**aglen deledu

## y + enw gwrywaidd

**DIM treiglad**

| | | |
|---|---|---|
| y cwrs | y gliniadur | y llyfr |
| y papur | y bwyd | y mwydyn |
| y trên | y drws | y rhedwr |

## y + enw lluosog

**DIM treiglad = DIM CENEDL/ *GENDER***

| | | |
|---|---|---|
| y cadeiriau | y gwersi | y llygod |
| y pensiliau | y bwydydd | y merched |
| y teithiau | y dogfennau | y rhaglenni |

# Treiglo + cenedl enwau

Rhowch 'y' o flaen bob un o'r enwau canlynol. Beth sylwoch chi?

|  |  |
|---|---|
| penderfyniad | problem |
| tad | tudalen |
| cyfrifiadur | cacen |
| bws | brawddeg |
| drws | dogfen |
| geiriadur | gwraig |
| llyfr | llinell |
| mynydd | mynedfa |
| rhew | rhestr |

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
RHAGORiaith
www.athrofa.cymru

# Yn y dosbarth ...

cath

llyfr

ci

drws

desg

Gallwch ddefnyddio'r un cardiau gan ofyn iddyn nhw roi 'y' o flaen yr enw.

Dyma ffordd dda o adolygu rheolau ac asesu dealltwriaeth.

# Yn y dosbarth ...




Paratowch 2 set o gardiau – 1 set o ansoddeiriau ac1 set o enwau.

Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn parau – bydd rhaid cael un cerdyn melyn ac un cerdyn gwyrdd.

Oes angen treiglo'r ansoddair? Pam?

Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu brawddeg yn cynnwys yr enw a'r ansoddair ar fwrdd gwyn.

# Yn y dosbarth ... CA2




https://gwellar-gair.peniarth.cymru/

# Yn y dosbarth ... CA3 a 4






# Rhifo + cenedl enwau







| | | |
|---|---|---|
| 1 | un ci | un gath |
| 2 | dau gi | dwy gath |
| 3 | tri chi | tair cath |
| 4 | pedwar ci | pedair cath |
| 5 | pum ci | pum cath |
| 6 | chwe chi | chwe chath |

**Beth ydy'r rheolau?**

# Cendl enwau: hwn / hon

- Y ferch hon
- Y bachgen hwn
- Y ddesg hon
- Y bwrdd hwn

- Y clustogau hyn



# Beth am eiriau meysydd penodol?



# Tasg: gwaith grŵp

- Yn eich grwpiau, penderfynwch ar bwnc, thema neu faes astudio a meddyliwch am enwau perthnasol i'r thema honno.

- Gwnewch restr ohonyn nhw ac edrychwch yn y geiriadur i weld os ydyn nhw'n wrywaidd neu fenywaidd.

# Defnyddiwch y diagram Venn i roi trefn ar yr enwau



# Sut ydyn ni'n gwybod ydy enwau'n fenywaidd neu'n wrywaidd?



Beth am ddefnyddio ambell gliw?

# Mae'r terfyniadau (*word endings* ) hyn fel arfer yn fenywaidd ...

- -aeth (barddoniaeth *poetry)*
- -fa (campfa *gym)*
- -en (seren *star)*
- -ach (cyfrinach)
- - as (cymwynas)
- -es (ysgrifenyddes *secretary*)
- -ell (llinell *line*)
- -eb (anfoneb *invoice*)
- -eg (dameg)

# Mae'r terfyniadau (*word endings* ) hyn fel arfer yn wrywaidd ...

- -awd (traethawd *essay*)
- -aint (maint *size*)
- -tid/did (ieuenctid *youth*)
- -rwydd (distawrwydd *silence*)
- -adur (cyfrifiadur)
- -wr (chwaraewr *player)*
- -edd (mawredd *greatness*)
- -yn (offeryn *instrument*)
- -iad (mynediad *entrance)*
- -deb (undeb *union*)

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
RHAGORiaith
www.athrofa.cymru

Gweithgaredd

# Benywaidd neu wrywaidd?



- gwasanaeth
- dyddiadur
- breuddwyd
- malwoden
- planhigyn
- darllenwr
- derwen

- ystafell
- adolygiad
- awdures
- cyfrifiannell
- cymdeithas
- aseiniad

- cwpan
- glendid
- syniad
- plentyn
- garddwr
- diwydiant

- cyfrifoldeb
- piben
- gwybodaeth
- arwr
- oedolyn
- caredigrwydd

# Chwap!



# Pa un sy'n gywir?

Y canolfan

Y ganolfan

Pam?

Pa un sy'n gywir?

Y gwaith

Y waith

Pam?

# Pa un sy'n gywir?

Y desg

Y ddesg

Pam?

# Pa un sy'n gywir?

Y pennaeth

Y bennaeth

Pam?

Pa un sy'n gywir?

Y fynedfa

Y mynedfa

Pam?

# Pa un sy'n gywir?

Y blentyn

Y plentyn

Pam?

# Pa un sy'n gywir?

Y pêl

Y bêl

Pam?

## Pa un sy'n gywir?

Y farn

Y barn

## Pam?

Tasg: Adolygwch y rheolau yma a meddyliwch am enghreifftiau perthnasol ohonynt byddech chi'n eu defnyddio neu'n eu clywed yn yr ysgol. Sut byddech chi'n eu cyflwyno yn eich dosbarth chi?

## Gwrywaidd

**Dim treiglad ar ôl 'y':**

y **b**achgen
y **c**oleg
y **d**rws

**Ansoddair ddim yn treiglo ar ôl enw gwrywaidd:**

y bachgen **da**
y coleg **mawr**
y drws **melyn**

**Rhifau Mr + y gair:**

dau + TM
tri + TLl
pedwar + x

## Gwr neu Ben?

## Benywaidd

**Treiglad meddal ar ôl 'y':**

y ferch
y ddesg
y gath

Ond x 'll/rh' – y rhaglen

**Ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd**

y ferch **glyfar**
y ddesg **fawr**
y gath **ddu**

**Rhifau Mrs + y gair:**

dwy + TM
tair + X
pedair + X

Trafodwch ...

# Gair o gyngor ….

| enw benywaidd | ebg | enw gwrywaidd |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**Pan fyddwch yn gorfod edrych mewn geiriadur dro ar ôl tro, gwnewch dabl fel hyn i'ch helpu chi …**







Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
RHAGORIAITH
www.athrofa.cymru


DiOLCh
ym fawr